**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 481

# Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003

### Defnyddio safle ar gyfer crynoadau anifeiliaid

**4.**—(1) Mae gwaharddiad ar ddefnyddio safle gan unrhyw berson ar gyfer crynhoi anifeiliaid arno onid yw'r safle hwnnw wedi'i drwyddedu at y diben hwnnw gan arolygydd milfeddygol.

(2) Rhaid i drwydded o dan yr erthygl hon—

(a) bod yn ysgrifenedig,

(b) bod yn un y gellir ei diwygio, ei hatal dros dro, neu ei dirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan arolygydd milfeddygol, a

(c) bod yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag y barna'r arolygydd milfeddygol fod eu hangen i atal cyflwyno clefyd i'r safle trwyddedig neu i atal lledaenu clefyd o fewn y safle trwyddedig neu'r tu allan iddo.

(3) Rhaid i drwydded bennu—

(a) enw'r trwyddedai,

(b) y safle lle y caniateir crynhoi anifeiliaid, ac

(c) yr ardal y caniateir i'r anifeiliaid fynd arni ("yr ardal i anifeiliaid").